




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net

Mae creu a datblygu gweithlu medrus yn allweddol ar gyfer cyflawni'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio





# Creu a datblygu gweithlu medrus

Lansiwyd y Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net ar 28 Chwefror 2023. Fe'i datblygwyd mewn cydweithrediad â dros 200 o randdeiliaid ar draws pob sector yng Nghymru, gan gysylltu ag ystod eang o feysydd polisi. Mae'r ddogfen yn cyd-fynd â Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 – a oedd yn cynnwys y cam gweithredu i gyhoeddi cynllun o'r fath.

Mae'r Cynllun yn gam cyntaf pwysig i ddeall rôl sgiliau o ran sicrhau pontio teg tuag at sefyllfa sero net. Mae'r her i gyflawni ein hymrwymiad sero net yn enfawr, a bydd ein hanghenion sgiliau yn y dyfodol yn gofyn am dull cydweithredol ar draws yr economi gyfan.

Mae'r cynllun wedi ein helpu i gael darlun o'r dirwedd sgiliau sero net yn erbyn yr 8 sector allyriadau a nodir yn Cymru Sero Net. Mae'r Cynllun yn blaenoriaethu 7 maes allweddol ac yn cynnwys 36 o gamau gweithredu.

Mae **Adeiladau Preswyl a Chynhyrchu Trydan a Gwres** yn ddau o'r wyth sector allyriadau ac mae'r cynllun yn amlinellu'r pwysau a'r gofynion sy'n wynebu'r sectorau hyn yn eu cyfanrwydd. Mae'r gwaith o gefnogi a datblygu'r anghenion sgiliau ar gyfer gweithlu'r presennol a'r dyfodol yn mynd rhagddo ac mae amrywiaeth eang o raglenni hyfforddi eisoes ar gael i gefnogi ystod eang o anghenion sgiliau a chymhwysedd y sector hwn.

Mae gwaith cynllunio'r gweithlu yn arf allweddol er mwyn darparu gweithlu llwyddiannus a chymwys, gyda help a chefnogaeth ar gael yma: Cynllunio'r Gweithlu | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)

## Pa opsiynau hyfforddi sydd ar gael?

Cymru gryfach, decach a gwyrddach: sgiliau sero net

### Mae'r cyfleoedd dysgu a hyfforddi presennol yn cynnwys;

#### > Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Mae 9 prifysgol ac 16 coleg yn darparu cymwysterau peirianeg a sero net ehangach.

#### > Prentisiaethau

Cefnogi dysgu mewn busnesau o bob maint ar draws 24 sector.

#### > Cyfrifon Dysgu Personol

Hyfforddi unigolion mewn sgiliau newydd gyda chyrtsiau wedi'u darparu mewn colegau ledled Cymru.

Lansiwyd **cynllun peilot Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) Gwyrdd** yn ystod hydref 2022 gyda'r nod o ddarparu hyfforddiant / opsiynau uwchsgilio byr wedi'u targedu sy'n darparu hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn i unigolion mewn sgiliau gwyrdd – gan gynnwys hyfforddiant gosod pypiau gwres.

Cymru gryfach, decach a gwyrddach: sgiliau sero net

#### > Rhaglenni Cyflogadwyedd

Helpu i gynyddu cyflogadwyedd gyda chymorth a chanllawiau ar gyfer heriau sy'n gysylltiedig â gwaith, hyfforddiant, uwchsgilio, a gyrfaedd newydd.

#### > Dysgu oedolion a'r gymuned

Dysgu achrededig a heb ei achredu i ddatblygu sgiliau newydd a gwella iechyd a lles.

Gall Llywodraeth Cymru gefnogi 50% o'ch costau hyfforddi drwy'r **Rhaglen Sgiliau Hyblyg (Rhaglen Sgiliau Hyblyg | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru))**. Byddwn yn lansio elfen sero net yn fuan, a fydd yn cefnogi busnesau i uwchsgilio eu staff mewn sgiliau sero net ar draws ein 8 sector allyriadau.

#### Nod Map Sgiliau a Hyfforddiant y Rhaglen Ôl-osod

er mwyn Optimeiddio yw darparu amlinelliad clir o gymwysterau a chyfleoedd hyfforddi ledled Cymru sydd ar gael i gefnogi gofynion ôl-osod.

Mae arweinwyr diwydiant, cyrff sector, cyflogwyr a rhanddeiliaid wedi helpu i lunio'r rhestr gynhwysfawr hon. Mae datblygiadau parhaus mewn technolegau a rhaglenni profi a dysgu fel y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn golygu y bydd y map hwn yn esblygu ac yn datblygu dros amser.

Mae amrywiaeth o lwybrau hyfforddi gwneuthurwyr neu 'eraill' ar gael sydd hefyd yn cefnogi'r sector. Gallant fod yn opsiwn a dylid eu hystyried gan eu bod yn darparu ystod werthfawr o sgiliau ac opsiynau hyfforddi ategol. Mae Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru hefyd yn cynnig ac yn cefnogi ystod ehangach o anghenion a datblygiadau o ran sgiliau sero net, gan gynnwys ôl-osod.

Map Sgiliau a Hyfforddiant – Dull Tŷ Cyfan yng Nghymru (llyw.cymru)

# Help a Chyngor

## Busnes Cymru

Darparu gwybodaeth, cyngor, canllawiau a chymorth diduedd wedi'i ariannu'n llawn

[Cyngor a Chymorth i Fusnesau | Busnes Cymru \(llyw.cymru\)](#)

## Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

[Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol | Porth Sgiliau Busnes Cymru \(llyw.cymru\)](#)

Mae pedair partneriaeth sgiliau rhanbarthol sy'n chwarae rôl ragweithiol wrth ddadansoddi anghenion sgiliau ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â materion cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae gweithio'n agos gyda'r partneriaethau hyn yn darparu pwynt cyswllt i helpu i lunio a rhoi adborth ynghylch sgiliau a materion sy'n ymwneud â hyfforddiant yn y rhanbarthau.

# Rhwydwaith Addysg Bellach

Mae rhwydwaith y colegau yn gweithredu ar draws Cymru gyfan ac yn mynd ati'n rhagweithiol i fynd i'r afael â'r sgiliau newydd hyn a rhai sy'n dod i'r amlwg yn ogystal â datblygu atebion hyfforddi pwrpasol wedi'u teilwra. Mae cysylltu â'ch colegau lleol neu ranbarthol yn ffordd ddefnyddiol i'ch helpu i gynllunio a darparu eich anghenion hyfforddi.

Swyddogaethau Datblygu Busnes Dynodedig, cynghorwyr cyflogwyr a biwroau cyflogaeth yw rhai o'r opsiynau sydd ar gael.

## Am fanylion cyswllt gweler:

[Map Sgiliau a Hyfforddiant – Dull Tŷ Cyfan yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)

